

Y Pwyllgor Menter a Busnes

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel

Dyddiad:

Dydd Iau, 6 Tachwedd 2014

Amser:

09.15

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

Siân Phipps

Committee Clerk

029 2089 8582

Pwyllgor.Menter@cymru.gov.uk

Agenda

Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod (09.15–09.30)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2 Ymchwiliad i Helpu Pobl Ifanc i Gael Gwaith – Sesiwn 1 (09.30–10.10)

(Tudalennau 1 – 33)

Steve Martin, Rheolwr Prosiect, Swyddfa Archwilio Cymru

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil (am) (Cwestiynau Cymraeg)

Briff Ymchwil – Ystadegau

EBC(4)–27–14 (p. 1) – Swyddfa Archwilio Cymru

Egwyl (10.10–10.20)

3 Ymchwiliad i Helpu Pobl Ifanc i Gael Gwaith – Sesiwn 2 (10.20–11.00)

(Tudalennau 34 – 40)

Yvonne Rodgers, Cyfarwyddwr, Barnardo's Cymru

Wendi Jones, Pennaeth Gwasanaethau, GISDA

Elizabeth Stokes, Rheolwr Learning 4Life, Llamau

Dogfennau atodol:

EBC(4)-27-14 (p. 2) – Barnardos

4 Ymchwiliad i Helpu Pobl Ifanc i Gael Gwaith – Sesiwn 3 (11.00–11.40)

(Tudalennau 41 – 47)

Andrew Viazzani, Pennaeth Recriwtio, Admiral

Wendy Rees, Uwch Bartner Busnes Adnoddau Dynol, BBC Cymru

Martin Nicholls, Prif Swyddog Gweithredu, Gwasanaethau Adeiladu ac

Eiddo Corfforaethol, Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr, Urdd Gobaith Cymru

Dogfennau atodol:

EBC(4)-27-14 (p. 3) – BBC Wales (Saesneg yn unig)

5 Motion under Standing Order 17.42 to resolve to exclude the public for the remainder of this morning's meeting (11.40)

Cyfarfod preifat

6 Blaenraglen Waith (11.40–12.00) (Tudalennau 48 – 55)

Dogfennau atodol:

EBC(4)-27-14 (p. 4) – Blaenraglen Waith – Gwanwyn 2015

7 Ymchwiliad i Dwristiaeth – Trafod yr Adroddiad Drafft (12.00–12.15)

(Tudalennau 56 – 106)

Dogfennau atodol:

EBC(4)-27-14 (p. 5) – Draft Tourism Report

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i Helpu Pobl Ifanc i Gael Gwaith - **Crynodeb o dystiolaeth o Adolygiadau'r Archwilydd Cyffredinol ar Bobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant**

Er mwyn helpu'r Pwyllgor Menter a Busnes gyda'i ymchwiliad i 'Helpu pobl ifanc i gael gwaith', rydym wedi crynhoi'r canfyddiadau o adolygiad gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol o *Bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant* a'r astudiaeth wella o waith cysylltiedig mewn cynghorau a gyhoeddwyd ar yr un pryd (Gorffennaf 2014). Mae'r canfyddiadau wedi'u crynhoi yn unol â chylch gorchwyl a phrif faterion yr ymchwiliad.

Prif gasgliadau gwaith yr Archwilydd Cyffredinol

Ym mis Gorffennaf 2014, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad yr astudiaeth gwerth am arian ar [Leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant](#) ac [Adolygiad o waith cysylltiedig mewn cynghorau lleol](#).

Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad fod Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa dda i helpu i leihau nifer y bobl ifanc rhwng 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ond nad yw mewn sefyllfa gystal i leihau nifer y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET a phennu a yw'n cyflawni gwerth am arian yn y maes hwn. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae camau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a gwaith ymgysylltu â chynghorau a rhai partneriaid pwysig eraill ond nid oes asesiad trylwyr o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei hamcanion.
- Os cânt eu gweithredu'n llwyddiannus, mae Fframwaith a Chynllun Gweithredu Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru (y Fframwaith) yn debygol o wella'r broses o gynllunio a chydgyssylltu gwasanaethau a'r ddarpariaeth ohonynt er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET, ond erys risgiau sylweddol yn enwedig mewn perthynas â phobl ifanc 19-24 oed.
- Mae gan Lywodraeth Cymru weithdrefnau clir ar waith i fonitro cynnydd a dwyn cynghorau a'r rhan fwyaf o randdeiliaid cenedlaethol i gyfrif ond nid yw cynghorau a phartneriaid eraill wedi mabwysiadu ei thargedau er eu bod yn ymrwymedig i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET.

Yn sgil y gwaith mewn awdurdodau lleol, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad fod cynghorau wedi ymrwymo'n glir i leihau ymhellach nifer y bobl ifanc sy'n NEET, yn enwedig y rhai sy'n 16-18 oed, ond bod gwaith cynllunio yn amrywio ac mae cynghorau wedi gwneud llai o gynnydd o ran deall costau neu o ran gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer cyrraedd eu nodau.

Crynodeb o ganfyddiadau'n ymwneud â chylch gorchwyl y Pwyllgor

- i. *Pa gymorth sydd fwyaf effeithiol a beth yw'r prif rwystrau a wynebwr gan bobl ifanc wrth iddynt geisio ymuno â'r farchnad lafur?*

Daeth yr astudiaeth i'r casgliad fod chwe elfen allweddol y Fframwaith yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac os cânt eu gweithredu'n llwyddiannus dylent fod yn effeithiol a helpu i leihau nifer y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET. (*Paragraffau 1.9-1.12 y prif adroddiad a Rhan 2*). Dyma'r elfennau:

- Nodi pobl ifanc sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio.
- Gwell broceriaeth a chydgyssylltu o ran cymorth.
- Prosesau tracio a phontio cryfach drwy'r system i bobl ifanc.
- Sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc.
- Atgyfnerthu sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd i gael cyflogaeth.

- Gwell atebolrwydd i sicrhau gwell deilliannau i bobl ifanc.

Mae rhywfaint o dystiolaeth bod proses effeithiol o olrhain pobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET (e.e. yn Wrecsam) a gwell systemau ar gyfer cydgysylltu cymorth (e.e. yn Abertawe) wedi cyfrannu at leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET. Fodd bynnag, roedd llai o dystiolaeth o effeithiolrwydd cymharol gwahanol wasanaethau ac ymyriadau. (Para 1.12).

Nid oedd yr astudiaeth yn nodi'r prif rwystrau i gyflogaeth ond nodwyd amrywiaeth yr ysgogwyr a oedd yn gysylltiedig â phobl ifanc sy'n NEET (Blwch 2, tudalen 20). Roedd y rhain wedi'u cynnwys yn y dogfennau Adolygiad a Chynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn 2010 ac sy'n cynnwys:

- Ffactorau addysgol sy'n cynnwys presenoldeb a chyrhaeddiad isel;
- Ffactorau economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys y rhai o deuluoedd incwm isel;
- Ymddygiad rhieni gan gynnwys diffyg ymwneud yn addysg y plentyn;
- Ymddygiad ac agweddau pobl ifanc; ac
- Amgylchiadau teuluol a phersonol gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, merched beichiog yn eu harddegau, troseddwr ifanc a digartrefedd.

- ii. *I ba raddau y mae strategaeth Llywodraeth Cymru i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn effeithiol ac yn cynnig gwerth am arian?*

Mae'r adroddiad yn nodi bod rhai prosiectau yn amodol ar werthusiad ond nid oedd yr astudiaeth yn gallu asesu gwerth am arian y strategaeth oherwydd nad oedd dealltwriaeth Llywodraeth Cymru a phartneriaid o'r gwariant ar gyfer cefnogi'r strategaeth yn ddigon clir ac nid oedd ymyriadau a gwasanaethau wedi'u gwerthuso'n ddigonol er mwyn asesu eu heffeithiolrwydd. (Para 1.17).

- iii. *Pa gynnydd a wnaed hyd yma o ran Cynllun Gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid?*

Cynhaliwyd yr astudiaeth yn ystod y gwaith o ddatblygu a chyhoeddi'r Fframwaith. Nid yw'n cynnwys y cynnydd ers hynny.

- iv. *Pa mor effeithiol yw rôl strategol awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys y Gwasanaeth Gyrfaoedd, y Gwasanaeth Ieuenctid a'r consortia addysg rhanbarthol?*

Daeth yr astudiaeth i'r casgliad fod ansawdd cynllunio strategol gan awdurdodau lleol yn amrywio a bod y gwaith o ymgysylltu'n lleol â phartneriaid yn amrywio hefyd. (Cynghorau: Rhan 2). Mewn rhai meysydd, mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn rhan ganolog o fentrau ac yn ymgysylltu'n effeithiol â phartneriaid. Mae gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd rôl bwysig o ran rhoi systemau data ac olrhain ar waith.

Mae'r Fframwaith yn nodi rôl bwysig ar gyfer gwasanaethau ieuenctid fel darparwyr gweithwyr arweiniol ar gyfer pobl ifanc sydd â'r angen mwyaf. Roedd yr adolygiad o'r

cynghorau yn dangos bod y ddealltwriaeth am gyfrifoldeb cynghorau yn anghyson, fel y nodir yn y ddogfen Ymestyn Hawliau: *Cynorthwyo Pobl Ifanc yng Nghymru (2000)*, ar gyfer arwain a chydgysylltu gwasanaethau ieuencid ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed a fydd yn annog pobl ifanc (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) i gyfranogi'n effeithiol ym maes addysg a hyfforddiant, manteisio ar gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth; a chyfranogi'n effeithiol a chyfrifol ym mywyd eu cymunedau, a bydd yn eu galluogi a'u cynorthwyo i wneud hynny (*Cynghorau: para 2.16*).

Daeth yr adolygiad o'r cynghorau i'r casgliad fod Cynghorau wedi gweithio gydag ysgolion, colegau addysg bellach, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a phartneriaid eraill i nodi a chynorthwyo pobl ifanc sy'n wynebu risg o ddod yn NEET. Fodd bynnag, nodwyd bod y tyndra rhwng partneriaid sydd mewn cystadleuaeth am ddysgwyr weithiau yn eu rhwystro rhag cydweithio'n effeithiol. (*Cynghorau: paragraffau 3.3-3.9*).

Yn gyffredinol, dywedodd y cynghorau ei bod yn anodd ymgysylltu â chyflogwyr i ddatblygu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, gan gynnwys prentisiaethau a phrofiad gwaith. Fodd bynnag, roedd rhai enghreifftiau o waith cadarnhaol gyda busnesau lleol lle'r oedd cynghorau wedi datblygu eu rhaglenni prentisiaeth eu hunain a oedd yn targedu pobl ifanc. (*Cynghorau: paragraffau 3.11-3.12*).

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn bartner pwysig yn enwedig mewn polisiau ar gyfer pobl ifanc 19-24 oed. Gwelsom enghreifftiau o waith da a gwelsom fod prosesau cydweithio rhwng awdurdodau lleol a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gwella. Daethom i'r casgliad fod y gorgyffwrdd o ran cyfrifoldebau amrywiol rhwng adrannau Llywodraeth Cymru ac Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU yn gyfyngiad pwysig ar waith gyda phobl ifanc 19-24 oed a'r nifer gymharol fach o bobl ifanc 16-18 oed sy'n derbyn budd-daliadau. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i wella'r broses gyfathrebu â Llywodraeth y DU drwy weithgorau swyddogol. (*Paragraffau 2.22-2.24*).

v. *Graddfa gwahaniaethu a'i effaith ar recriwtio pobl ifanc;*

Ni chafodd ei gynnwys yn yr astudiaeth.

vi. *Pa mor effeithiol yw'r amrywiaeth o gynlluniau, mentrau a phrosiectau sy'n anelu at gefnogi pobl ifanc i gael gwaith, er enghraifft Twf Swyddi Cymru, prentisiaethau, hyfforddeiaethau, prosiectau eraill a gefnogir gan gyllid Ewropeaidd a phrosiectau a reolir gan y trydydd sector? A ydynt yn sicrhau gwerth am arian?*

Daeth yr astudiaeth i'r casgliad nad oedd dull cyffredin o werthuso prosiectau a chynlluniau unigol. Nid oedd gwaith gwerthuso yn digwydd fel mater o drefn ac felly roedd yn anodd asesu'r gwerth am arian. (*Para 4.4*).

Derbyniwyd yn gyffredinol nad oedd y trefniadau ar gyfer cyllid Ewropeaidd yn ystod 2006-13 wedi'u cydgyssylltu cystal ag y gallent fod ac roedd hyn wedi cyfrannu at rywfaint o ddyblygu ac anghysondeb. Nododd yr astudiaeth fod trefniadau'n cael eu rhoi ar waith ar gyfer cyllid Ewropeaidd o 2014 a fyddai'n sicrhau bod prosiectau'n cau'r bylchau yn y darpariaethau lleol hynny a nodwyd drwy fapio gwasanaethau'n

lleol a bod tendrwyf wedi ymwneud â rhwydweithiau lleol ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed. (*Paragraffau 1.26-1.27*).

Materion y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried

- a. *Effaith penderfyniad Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu cymorth i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed; ac effaith y penderfyniad hwnnw ar bobl ifanc rhwng 19 a 24;*

Daeth yr astudiaeth i'r casgliad nad yw'r broses o weithredu'r Fframwaith, gyda'i bwyslais ar bobl ifanc 16-18 oed, o bosibl yn ddigonol er mwyn i Lywodraeth Cymru allu cyflawni ei hamcanion ar gyfer pobl ifanc 19-24 oed. Mae'n nodi bod gwaith ymchwil ac arolygu wedi dod i'r casgliad nad yw gwell canlyniadau yn 16-18 oed bob amser yn arwain at well canlyniadau yn 19-24 oed (e.e. *Against the Odds - Re-engaging young people in employment or training*, y Comisiwn Archwilio, Gorffennaf 2010). Mae ffigurau ar gyfer awdurdodau lleol Cymru yn dangos nad oedd y rhai â'r gostyngiadau mwyaf mewn niferoedd NEET sy'n gadael addysg yn 16 wedi gweld yr un gwelliannau, o reidwydd, ar gyfer y grŵp hŷn (e.e. Torfaen) (*Para 2.20*).

- b. *Trafnidiaeth (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig): beth yw'r problemau a pha gymorth y gellir ei ddarparu?*

Ni chafodd ei ystyried fel rhan o'r astudiaeth.

- c. *Yr angen am 'sgiliau meddal': e.e. sgiliau ar gyfer cyfweiliad a cheisio am swydd; sgiliau i baratoi'r unigolyn at fyd gwaith;*

Ni chafodd ei ystyried fel rhan o'r astudiaeth.

- ch. *Beth y gellir ei wneud i helpu grwpiau o bobl ifanc sy'n cael eu heffeithio yn fwy gan rwystrau i ailymuno â'r farchnad lafur, er enghraifft pobl ag anableddau?*

Nododd yr astudiaeth fod pobl ifanc ag anableddau neu sy'n ddifrifol wael, sydd ag anghenion addysgol arbennig, rhieni sydd yn eu harddegau a rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o ddod yn NEET. Gwelsom nad yw'r Fframwaith yn gwahaniaethu'n ddigonol rhwng y gwahanol grwpiau o bobl ifanc sy'n NEET neu sydd mewn perygl o ddod yn NEET. Bwriad Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod unrhyw waith dadansoddi a blaenoriaethu o'r fath yn cael ei bennu'n lleol ond daeth yr astudiaeth i'r casgliad nad oedd yn glir a fyddai'r Llywodraeth yn monitro a oedd hyn yn digwydd ai peidio (*Paragraffau 2.12-2.15*).

Argymhellodd yr astudiaeth fod Llywodraeth Cymru yn dadansoddi data a chynlluniau gweithredu lleol gan gyfeirio at anghenion grwpiau risg uchel a'i bod yn trafod hyn gyda chynghorau.

- d. *Effaith a gwerth am arian cronfeydd Ewropeaidd;*

Daeth yr astudiaeth i'r casgliad fod cyllid Ewropeaidd gwerth £40 miliwn y flwyddyn o leiaf wedi cefnogi prosiectau sy'n gysylltiedig â NEET. Dyma oedd y brif ffynhonnell cyllid ar gyfer llawer o brosiectau lleol fel y prosiect 'Engage' gwerth £21 miliwn yn y De-orllewin yn ogystal â darparu cyllid sylweddol ar gyfer Rhaglenni Hyfforddi o'r Radd Flaenaf a rhaglenni eraill a arweinir yn ganolog. Roedd pob un o'r prosiectau hyn yn amodol ar fonitro perfformiad a oedd yn dangos eu bod wedi cyflawni eu

targedau. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, daeth yr astudiaeth i'r casgliad nad oedd y gwerthusiadau cymharol yn ddigonol i allu barnu gwerth am arian cymharol
(*Paragraffau 1.20 a 4.5*).

dd. I ba raddau mae cyflogwyr yn gofyn am sgiliau Cymraeg, ac a yw pobl ifanc yn gweld hyn yn rhwystr;

Ni chafodd ei ystyried fel rhan o'r astudiaeth.

e. Amrywiaeth ranbarthol a heriau lleol;

Yn unol â'r disgwyl, yn sgil yr adolygiad o'r cynghorau gwelwyd bod gwaith cynllunio strategol, ymgysylltu a pherfformiad yn amrywio'n sylweddol yn lleol, ac yn wir, un o fwriadau'r Fframwaith yw cyflwyno dull mwy cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth ledled Cymru. Cafodd y gofyniad ar awdurdodau lleol a'u partneriaid i fapio gwasanaethau, penodi 'cydgysylltydd NEET', cyflwyno cynlluniau a'u trafod ddwywaith y flwyddyn â Llywodraeth Cymru ei groesawu gan awdurdodau lleol a daeth yr astudiaeth i'r casgliad y bydd y camau hyn yn cyfrannu at y tebygolrwydd y bydd y Fframwaith yn gwella gwaith cynllunio, gwaith cydgysylltu a'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.

(*Paragraffau 2.1-2.5*).

f. Y problemau cymdeithasol sy'n atal pobl ifanc rhag dod o hyd i waith, a sut i newid y diwylliant a'r agwedd sy'n cadarnhau diweithdra i lawer.

Ni chafodd ei ystyried fel rhan o'r astudiaeth.

Eitem 3

Credwch
mewn plant
Believe in
children



Barnardo's
Cymru

Teitl: Ymchwiliad Pwyllgor Menter a Busnes i Helpu Pobl Ifanc i Waith

Gan: Dr Sam Clutton
Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Polisi
Hydref 2014

Ebost : Samantha.clutton@barnardos.org.uk

Ffôn: 01639 620771

Cyfeiriad: Uned Polisi ac Ymchwil Barnardos Cymru
19-20 Ffordd Llundain
Castell-nedd
SA11 1LE

1. Gwybodaeth a chyd-destun gweithio Barnardos Cymru

Mae Barnardos Cymru wedi bod yn gweithio â phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru am dros 100 mlynedd ac mae'n un o'r elusennau plant mwyaf sy'n gweithio yn y wlad. Rydym ar hyn o bryd yn rhedeg 88 o wasanaethau amrywiol ledled Cymru, yn gweithio mewn partneriaeth â 19 o'r 22 awdurdod lleol, a'r flwyddyn ddiwethaf wedi cefnogi o gwmpas 8,500 o blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae gwasanaethau Barnardos Cymru yng Nghymru yn cynnwys: rhai sy'n gadael gofal a phrosiectau digartrefedd yr ifainc, cynlluniau gofalwyr ifanc, cynlluniau arbenigol maethu a mabwysiadu, canolfannau teulu a chymorth i deulu, cefnogi rhianta, prosiectau datblygu cymunedol, cefnogi teulu a phlant a effeithiwyd arnynt gan riant yn y carchar, cam-drin domestig a rhiant yn camddefnyddio sylweddau, gwyliau byr a gwasanaethau cynhwysol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau, asesiad a thriniaeth i bobl ifanc sy'n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol neu ymddygiad pryderus a gwasanaethau arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc ar risg o, neu wedi'u cam-drin trwy, gam-fanteisio rhywiol ar blant a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i bobl ifanc.

Mae pob gwasanaeth Barnardos Cymru yn wahanol ond mae pob un yn credu bod pob plentyn a pherson ifanc yn haeddu'r cychwyn gorau mewn bywyd, waeth pwy ydy o, beth mae wedi'i wneud neu beth mae wedi'i ddiodef. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a enillwyd o'n gwaith uniongyrchol â phlant i ymgyrchu am well polisi gofal plant, ac i hyrwyddo hawliau pob plentyn. Rydym ni'n credu y gall y plant mwyaf agored i niwed newid ei bywydau gyda'r cymorth iawn, cefnogaeth ymroddedig ac ychydig o gred.

- **Gellid rhyddau'r ymateb hwn i'r cyhoedd.**
- **Mae'r ymateb hwn ar ran Barnardos Cymru.**

Cyflwyniad i'r ymchwiliad

Mae Barnardos Cymru yn gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc o bob oed ledled Cymru. Rydym yn darparu gwasanaethau i bobl ifanc 16+ oed trwy wasanaethau gweithio â phobl ifanc sydd wedi gadael gofal, pobl ifanc ddigartref a phobl ifanc angen cefnogaeth tenantiaeth, rhieni ifanc, gofalwyr ifanc i oedolion, pobl ifanc ag anableddau, pobl ifanc gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau, pobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl a phobl ifanc ar risg o, neu wedi'u cam-drin trwy gam-fanteisio rhywiol ar blant.

1. Beth yw'r prif rwystrau a wynebir gan bobl ifanc sy'n ceisio cael i mewn i'r farchnad lafur?

- 1.1. Mae gan y bobl ifanc mae Barnardos Cymru yn eu cefnogi ystod o anghenion sy'n gosod rhwystrau penodol i gael i mewn i'r farchnad lafur. Mae amgylchiadau heriol eu bywydau a'r berthynas rhwng profiadau eu plentyndod a lefelau ymgysylltu yn addysg, yn aml yn golygu eu bod yn cyrraedd byd oedolion ifanc fel pobl ifanc gyda chymwyseddau isel neu ddim cymwyseddau o gwbl, ac sydd y rhai sydd bellaf i ffwrdd oddi wrth y farchnad lafur.
- 1.2. Rhaid i bobl ifanc sy'n gadael gofal ymdopi â'r her o newid cywasg a chyflymedig i fyd oedolion (o'i gymharu â'u cymheiriaid). Mae'n amlwg os yw'r rhai sy'n gadael gofal i gael y siawns gorau i lwyddo mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, rhaid iddynt gael sylfaen gadarn i gychwyn arni. Rhaid bod llety addas, mynediad at ofal iechyd, a chefnogaeth ariannol a phersonol briodol¹ wedi'i sicrhau ar eu cyfer. Yn rhy aml, mae'r rhai sy'n gadael gofal yn cael eu gorfodi i roi addysg, hyfforddiant a chyflogaeth o'r neilltu wrth iddynt wynebu'r her o fyw yn annibynnol am y tro cyntaf.²
- 1.3. Mae cyfrifoldebau gofalu yn effeithio ar brofiadau addysg a chanlyniadau pobl ifanc. Mae'r newid i fyd oedolion yn anodd i lawer o ofalwyr ifanc, ac yn arbennig y newid i addysg bellach, cyflogaeth a hyfforddiant.³ Dyma yw canlyniad profiadau addysgol gwael mewn addysg orfodol, effaith ymatebion ysgol a chyfrifoldebau gofalu ar lwyddiant addysgol is a chefnogaeth annigonol ar gyfer cyfrifoldebau gofalu parhaus. Rhaid i symudiad gofalwyr ifanc i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant gael ei ddeall yng nghyd-destun anghenion y teulu i gyd a rôl y person ifanc yn y teulu hwnnw.

¹ The Centre for Social Justice, (2014), *Survival of the Fittest? Improving life chances for care leavers*, http://www.centreforsocialjustice.org.uk/UserStorage/pdf/Pdf%20reports/CSJ_Care_Report_28.01.14_web.pdf

² Consumer Focus Wales, (2011), *From care to where? How young people cope financially after care*, <http://www.consumerfocus.org.uk/wales/files/2011/03/From-care-to-where-Web-2.pdf>

³ NIACE Policy Paper (2013), *Access and Inclusion: Young Adult Carers and Education and Training* http://www.niace.org.uk/sites/default/files/access_and_inclusion_-_young_adult_carers_and_education_and_training_1.pdf

- 1.4. Efallai y caiff addysg mamau ifanc ei rwygo ar yr amser mwyaf allweddol ond hyd yn oed pan fyddant yn dod yn rhieni ar ôl cyrraedd 16 oed mae cymaint â 40% yn debygol o fod wedi cael ymgysylltiad a chanlyniadau gwael mewn addysg.⁴ Mae cymryd rhan mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer mamau ifanc yn isel iawn er gwaethaf tystiolaeth sy'n awgrymu bod gan rieni ifanc ystod o anghenion cefnogaeth emosiynol ac ymarferol sy'n rhaid eu cwrdd cyn y gallant setlo ac ymgysylltu'n effeithiol mewn rhaglen dysgu. Ar amser cyhoeddi adroddiad ymchwil Barnardos i famau ifanc a mynediad at ddysgu yn 2010, roedd 84% o famau ifanc yng Nghymru yn NEET.⁵ Mae'r rhan fwyaf o rieni ifanc yn brwydro i fyw ar incwm isel, gyda phroblemau llety a gofal plant, a chael eu hanghenion o ran cefnogaeth wedi'u cwrdd ac mae'r materion hyn yn effeithio ar eu gallu i gael at y farchnad lafur.
- 1.5. Mae digartrefedd bron yn treblu siawns person ifanc o ddatblygu problemau iechyd meddwl ac yn aml cysylltir digartrefedd â phroblemau camddefnyddio sylweddau.⁶ Gall pobl ifanc wynebu anawsterau gwirioneddol i gael at gefnogaeth addas ar gyfer eu hanghenion ychwanegol er mwyn darparu'r adnoddau personol a'r sefydlogrwydd sydd ei angen i ymgysylltu mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Ar yr un pryd, adroddwyd bod defnyddio cyfeiriad hostel yn rhwystr mawr wrth i bobl ifanc wneud cais am waith ac maent hefyd wedi siarad am y 'magl tloidi' yng nghyswllt sicrhau gwaith fydd yn rhoi cyflog digon mawr i dalu am gostau tŷ wrth iddynt ymdrechu i sicrhau llety.⁷
- 1.6. Mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw pobl ifanc ag anableddau ac anableddau dysgu wedi'i darparu ar gyfer cyflogaeth fel cyrchnod newid i fyd oedolion ac yn aml maent yn cael eu hamddifadu o gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant.⁸ Mae pobl ifanc ag anableddau yn parhau ddwywaith mwy tebyg o beidio bod mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth na'r rhai sydd heb anableddau.⁹
- 1.7.** Effeithir ar lawer o'r bobl ifanc rydym ni yn eu cefnogi gan fwy nag un o'r problemau a nodwyd uchod, ac maent yn wynebu rhwystrau cymhleth a rhyngberthynol i gael at y farchnad lafur, a chael eu cymhlethu gan ffyrdd o fyw anhrefnus yn berthynol i'w hanghenion ychwanegol. Mae'n Gwasanaeth Bae Abertawe er enghraifft yn cefnogi'r rhai sy'n gadael gofal:

⁴ Department for Children, Schools and Families, (2007) *Teenage Parents next steps: Guidance for Local Authorities and Primary Care Trusts*, (ENGLAND) London: Every Child Matters, DCSF

⁵ Barnardo's (2010) *Not the end of the story – supporting young mothers back into education*, http://www.barnardos.org.uk/not_the_end_of_the_story_-_march_2010_pdf.pdf

⁶ Social Exclusion Unit, (2005), *Transition: young adults with complex needs a Social Exclusion Unit final report*, London: ODPM

⁷ Buchanan, J. et al (2010) *Beyond the rhetoric of youth homelessness: telling it as it is*, Barnardo's Cymru and Glyndwr University https://www.barnardos.org.uk/beyond_rhetoric_of_youth_homelessness_-_telling_it_as_it_is_-_full_report.pdf

⁸ Conlan, L., (2014) *Transition Planning for Young People with Learning Disabilities in Great Britain*, Research and Information Service Research Paper, Northern Ireland Assembly http://www.niassembly.gov.uk/Documents/RaISe/Publications/2014/employment_learning/6514.pdf

⁹ <http://www.learningobservatory.com/uploads/publications/2423.pdf>

- Ymysg y rhai dan 18 oed, mae cyfanswm o 16 neu 18% ohonynt yn NEET.
- Mae cyfanswm o 74 neu 53% o'r rhai sy'n gadael gofal dros 18 oed ac sy'n cael eu cefnogi gan y gwasanaeth, yn NEET.
- O'r cyfanswm o bobl ifanc dros 18 oed ac yn NEET, mae 33 ohonynt hefyd unai'n feichiog, yn y carchar, yn anabl neu'n derbyn ESC, neu yn rhiant ar Gymhorthdal Incwm.
- Rhwng Ebrill 1af a'r 31ain Awst eleni, cafwyd cyfanswm o 756 o ymweliadau i wasanaeth y Bae gan rai oedd yn gadael gofal, ac roedd 38% o'r ymweliadau hynny yn perthnasu i ddim ond 10 o bobl ifanc.
- O'r 10 o bobl ifanc hynny : maent i gyd yn NEET; mae 7 dros 18 oed; mae 4 mewn llety dros dro; mae gan 4 ohonynt ymglymiad â'r YOS neu â rheolwr troseddwy; mae gan 4 ohonynt broblemau camddefnyddio sylweddau; mae gan 3 ohonynt broblemau iechyd meddwl dynodedig ac mae 1 merch ifanc yn feichiog.

- 1.8.** Mae effaith amgylchiadau plant ar eu cyfleodd addysgol a'u canlyniadau, ynghyd a'r heriau o gyrraedd byd oedolion ifanc gyda chyfrifoldebau ychwanegol a/neu anghenion yn ychwanegol at faterion perthynol fel hunan-barch isel, ac yn aml, cefnogaeth brin gan deulu, yn arwain at sefyllfa ble gall y rhwystrau at gyflogaeth ymddangos yn anorchfygol.
- 1.9.** Rydym yn ymwybodol bod tystiolaeth mewn perthynas â'r rhwystrau sy'n wynebu pobl ifanc mewn amgylchiadau penodol fel y nodwyd uchod, wedi eu cyflwyno i amrywiol Ymchwiliadau gan Bwyllgorau gennym ni ac eraill dros y degawd diwethaf. Mae tystiolaeth gyfoes fel y cyfeiriwyd yn y cyflwyniad hwn, a'n profiad ni ein hunain fel darparwyr gwasanaeth i bobl ifanc agored i niwed, yn awgrymu fod y rhain yn faterion cyson na ymdriniwyd â hwy yn ddigonol, a rhaid iddynt nawr gael eu gweld yng nghyd-destun hinsawdd economaidd eithriadol o heriol. Mae'r rhwystrau hyn, nid yn unig yn effeithio ar fynediad i'r farchnad lafur, ond yn cyfyngu'r cyfleodd i bobl ifanc ymgysylltu mewn neu gynnal hyfforddiant ,neu le mewn addysg bellach.
- 1.10.** Mae rhwystrau ymarferol hanesyddol ar fynediad i addysg bellach, hyfforddiant neu'r farchnad lafur yn parhau. Gall cyflogau isel, treuliau teithio gwaharddol (yn arbennig mewn ardaloedd gwledig), costau cyfarpar dysgu a hyfforddiant, a chostau yn berthynol i waith, fel dillad, fod yn rhwystrau i bobl ifanc yn byw mewn teuluoedd incwm isel a phobl ifanc yn byw'n annibynnol.
- 1.11.** I bobl ifanc sy'n byw'n annibynnol (am eu bod wedi gadael gofal neu wedi bod yn ddigartref neu yn dod o deuluoedd sy'n methu parhau i'w lletya), gall costau tŷ yn erbyn cyflog isel olygu bod cynnal tenantiaeth ar gyflog isel fod yn anodd iawn, hyd yn oed gyda chymorth budd-dal tai. Amlygwyd y materion hyn cyn belled yn ôl a 2009 pan gynhyrchwyd, gyda phlant a phobl ifanc yng Ngogeldd Cymru, y ffilm 'Hope'¹⁰

¹⁰ http://www.barnardos.org.uk/resources/research_and_publications/below-the-breadline-a-year-in-the-life-of-families-in-poverty/publication-view.jsp?pid=PUB-1442

a oedd yn datgan yr heriau o fyw mewn tlodi i bobl ifanc oedd yn byw'n annibynnol. Mae'r ffilm yn cynnwys pobl ifanc sydd wedi gadael gofal neu wedi cael profiad o ddirgaredd, a rhieni ifanc, rhai gyda chyflog, a rhai yn derbyn budd-daliadau. Roeddynt i gyd yn wynebu'r benbleth ddyddiol o broblemau, fel a ddylent 'fwyta neu wresogi'. Yn anffodus, mae'r materion hyn yn parhau a phobl ifanc yn parhau i ddod at ein gwasanaethau mewn cyflwr o argyfwng oherwydd tlodi sy'n golygu na allant fforddio i wresogi'r lle maent yn byw neu i fwyta. Yn wir, mae'n gwasanaethau yn datgan fod tlodi cyson a llwyr yn effeithio ar nifer cynyddol o'r bobl ifanc rydym ni'n eu cefnogi.

2. Pa gefnogaeth sydd fwyaf effeithiol ar gyfer pobl ifanc sy'n ceisio cael mynediad i'r farchnad lafur?

- 2.1** Ar gyfer pobl ifanc gydag anghenion cymhleth, mae'r Uned Allgáu Cymdeithasol yn awgrymu bod gwaith i fynd i'r afael yn uniongyrchol â meddwl ac ymddygiad yn aml yn gam cyntaf angenrheidiol ar y ffordd at ganlyniadau mwy anodd, fel ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant neu'r farchnad waith.¹¹
- 2.2** Yn 2011 cyflwynodd Canolfan Rhagoriaeth a Chanlyniadau Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc adolygiad cyflym o 'Strategaethau i ail-ymgysylltu pobl ifanc nad oeddynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant'. Yn ei grynodedd ar ddulliau effeithiol roedd yn cynnwys y rhai oedd:
- *Yn cynnig cefnogaeth ar newidiadau allweddol, yn aml trwy gefnogaeth dwys gan weithiwr allweddol, mentor neu gynghorwr sy'n actio fel 'model rôl' yn ogystal a rhoi arweiniad ymarferol, cefnogaeth a broceriaeth,*
 - *Yn hyblyg ac yn cynnig ystod o lwybrau ar gyfer pobl ifanc ag anghenion, priodoleddau a lefel sgiliau gwahanol.*
- 2.3** Yn gynharach eleni cyflwynodd Barnardos Cymru adroddiadau gwerthuso yn dilyn cwblhau dau prosiect 4 blynedd o hyd, oedd wedi'u hariannu gan grant dan 'Sgiliau Bywyd' y Loteri Fawr.
- 2.4** Roedd Prosiect Dewisiadau Sgiliau Bywyd wedi'i leoli yn Wrecsam gyda Phartneriaeth Cwmpas Barnardo's Cymru ac yn gweithio gyda 41 o bobl ifanc sy'n gadael gofal i gefnogi eu mynediad at addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Rheolwyd y prosiect gan staff Barnardos Cymru – roedd y tim yn cynnwys staff Barnardos Cymru, gweithiwr ymyriadau therapiwtig o CAIS asiantaeth cyffuriau ac alcohol, a chynghorwr personol o Gyrfa Cymru. **Ar ddiwedd y prosiect gwelwyd gostyngiad o 50% yn nifer y bobl ifanc oedd yn NEET.**
- 2.5** Roedd Prosiect Sgiliau Bywyd, 'Work Your Way' wedi'i leoli yn Sir Ddinbych gyda Gwasanaeth Cyfle Barnardos Cymru, ac yn gweithio gyda 33 o bobl ifanc sy'n gadal gofal oedd ag ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol neu yn rieini ifanc i gefnogi eu mynediad at addysg, hyfforddiant neu

¹¹ Social Exclusion Unit, (2005), *Transition: young adults with complex needs a Social Exclusion Unit final report*, London: ODPM

gyflogaeth. **Ar ddiwedd y prosiect roedd 17 o bobl ifanc wedi cael profiad o gyflogaeth am dâl, 6 wedi mynd i addysg bellach a 9 wrthi'n cyflawni pecyn o hyfforddiant.**

- 2.6** Cyflawnodd y prosiectau gefnogaeth drwy gefnogaeth 1:1 a gwaith grwp oedd yn cynnwys sgiliau sylfaenol byw'n annibynnol, sgiliau sylfaenol fel rhifedd, llythrennedd, adeiladu hyder a hunan-barch, sgiliau trefnu ac ysgogi a chefnogaeth ymarferol ar gyfer mynediad at addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Darparwyd cynlluniau datblygu a dysgu unigol manwl gyda phob un person ifanc. Sicrhawyd lleoliadau gwaith, cyfleoedd gwirfoddoli a gwaith i ddarparu ar gyfer mynediad at gyflogaeth i gefnogi pobl ifanc i fod yn 'barod am waith'.
- 2.7** Derbyniodd bobl ifanc gefnogaeth trwy eu gwasanaeth Cynghorwr Personol a'r prosiectau i ymdrin âg argyfwng personol a phroblemau parhaol lletya. Roedd materion personol pobl ifanc yn ystod bywyd y prosiect yn cynnwys er enghraifft: bwlio, beichiogrwydd, rheoli bywyd dinesig ar ôl bod yn y carchar, teulu wedi chwalu, camfanteisio rhywiol, plentyn wedi'i fabwysiadu, cam-drin domestig a chartref ansicr.
- 2.8** Sicrhau cyflogaeth am dâl oedd y cynlyniad mwyaf annodd ei gyflawni. O'r 41 person ifanc a gefnogwyd gan brosiect Dewisiadau Sgiliau Bywyd, sicrhaodd 5 ohonynt gyflogaeth am dâl am 3 mis, sicrhaodd 4 ohonynt gyflogaeth am dâl am 6 mis a sicrhaodd 1 ohonynt gyflogaeth am dâl am 12 mis. O'r 33 person ifanc a gefnogwyd gan brosiect 'Way to Work' Sgiliau Bywyd, sicrhaodd 7 ohonynt gyflogaeth am dâl am 3 mis, sicrhaodd 4 ohonynt gyflogaeth am dâl am 6 mis a sicrhaodd 1 ohonynt gyflogaeth am dâl am 12 mis.
- 2.9** Cyflogaeth am dâl oedd y nod cyrchfan mwyaf poblogaidd i bobl ifanc oedd yn cymryd rhan yn y prosiect, fodd bynnag canfuwyd nifer o rwystrau i gynnal cyflogaeth. Nid oedd rhai pobl ifanc yn gweld gwerth mewn gwirfoddoli neu brofiad gwaith, a bu iddynt ddechrau gweithio cyn iddynt allu ymdopi â gofynion cyflogaeth a thynnu'n ôl i fynd i addysg neu hyfforddiant. Nid oedd rhai pobl ifanc yn gallu ymdopi'n ariannol â bod mewn cyflogaeth o ganlyniad i golli budd-dal tai a chyflog isel. Roedd gwaith rhan amser a gwaith dros dro yn arbennig o annodd oherwydd nad oedd y system buud-daliadau yn hyblyg neu'n ddigon adweithiol i'r newid ym mhatrwm ymgysylltiad â'r farchnad lafur i unigolion. Roedd pobl ifanc yn parhau i gael profiad o sefyllfaeoedd o argyfwng personol ac ansefydlogrwydd llety wrth gymryd rhan yn y prosiect, ac roedd hyn yn effeithio ar eu gallu i ymrwymo i ofynion cyflogaeth. Roedd y prosiect yn gweithredu yn erbyn cyd-destun y dirwasgiad, gyda rhai cwmnïau yn gorfod tynnu'n ôl o brofiad gwaith a chynnigion gwirfoddoli o ganlyniad i'r toriadau economaidd a'r proffl o ddi-weithdra cynnyddol yr ifanc.
- 2.10** Roedd gwerthusiad y prosiectau yn awgrymu y dylai gwaith i gefnogi pobl ifanc agored i niwed at addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth fod:
- Wedi'i deilwra ar gyfer unigolion gan ddefnyddio canlyniadau personol yn hytrach na chanlyniadau ticio bocs.
 - Cael ei gyflawni mewn partneriaeth barchus ar draws sefydliadau, ac yn bendant yn defnyddio'r arbennigedd o fewn y gwahanol sefydliadau.

- Gweithio mewn partneriaeth â'r bobl ifanc a sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn eu ffordd eu hunain, ar eu cyflymdra eu hunain.
- Yn hyblyg ac amrywiol.
- Wedi'i deilwra i grŵp cleient penodol – bydd pobl ifanc yn wynebu rhai anhawsterau generig yn gyffredin i eraill ar incwm isel, ond bydd grwpiau penodol hefyd yn wynebu anawsterau neilltuol
- i'w hamgylchiadau bywyd.
- Dim wedi eu cyfyngu i amser. Roedd y prosiectau hyn angen 4 blynedd i gefnogi pobl ifanc ar draws nodau tymor hir a newid.
- Cyfuno sgiliau personol meddal, dysgu yn seiliedig ar weithgareddau, cyfleodd i gymdeithasu a chefnogaeth emosiynol/therapiau siarad.
- Gweithio i'r cysail o ddewis deallus. Trwy roi cyfleodd a phrofiadau, gall pobl ifanc ddeall yn llawn beth yw eu dewisiadau.



National Assembly for Wales, Enterprise and Business Committee

Inquiry into Helping Young People into Work

BBC Cymru Wales - evidence

October 2014

I. Overview of BBC Wales

- The BBC is Wales' national broadcaster – providing content across television, radio and interactive media in Welsh and English.
- BBC Wales provides value to audiences in Wales:
 - through national programmes and services which are made in Wales and for Wales specifically (e.g. BBC Wales Today and BBC Radio Cymru), and
 - through the production of network programmes and services which are broadcast in Wales and across the rest of the UK (e.g. Doctor Who, Sherlock, BBC Cardiff Singer of the World and The Call Centre).
- BBC Wales' news services reach more than half the adults in Wales every week. Our English language programming on BBC One Wales and BBC Two Wales attract roughly one million viewers each week. Our news and sport website are also accessed by more than three million different browsers (PC or mobile) each week.
- BBC Wales provides Welsh language programming and content across radio (BBC Radio Cymru), television (via S4C) and online (BBC Cymru Fyw).
- Wales has established a reputation as a centre of excellence for high-end drama production. The BBC's Roath Lock centre is the biggest TV drama production facility in the UK.
- BBC Wales will relocate to a new broadcast centre right outside Cardiff Central station in 2018. We expect the move to kick-start one of the capital's most ambitious regeneration projects in years – and provide a focal point for the nation's creative industries.
- BBC Wales works closely with S4C – and provides almost £20m of programming to the channel each year (including the soap opera Pobol Y Cwm). BBC and S4C jointly commissioned the TV drama Hinterland (which will return for a second series next year). S4C will join BBC iPlayer later this year.
- As a result of the last licence fee settlement, BBC Wales has seen an overall reduction in funding of some 16% since 2011. By reducing overheads, content cuts have been closer to 10% (with news, current affairs and political output protected from cuts)

2. Context

BBC Wales welcomes the opportunity to submit evidence to the Enterprise and Business Committee's inquiry on Attracting Young People into the Workplace. BBC Wales' most recent employment data, shows that 4.7% of its workforce is aged between 16 and 25 years old.

We recognise the need to continue to work to recruit young people aged between 16 and 25. And a number of key initiatives are in place to support this aim, many of which are outlined below.

We would also note that due to the nature of the work at BBC Wales, we require that all our staff have the necessary skills to perform their roles to the high standard we require.

Many initiatives aimed at young people are aimed at strengthening the skills required to work for a broadcaster such as BBC Wales. Additionally, we are currently recruiting an individual to champion workforce diversity - and to help spot the brightest and best from all backgrounds and ensure we have a pool of fantastic candidates when the right roles come up.

3. What support is most effective and what are the main barriers that face young people trying to enter the labour market?

The BBC, as one of the biggest names for radio, television and online content, is always looking for the next generation of talent to keep it at its best. We want people with fresh ideas, who ultimately want a career in the industry and are committed to offering apprenticeships and trainee schemes to young individuals in Wales throughout the year. We have listed a wide range of initiatives undertaken by the BBC in Wales below.

3.1 Apprenticeships

Currently BBC Wales provides an annual 12-month **Apprenticeship in Creative and Digital Media** – offering approximately 10 placements a year to 16-24 year olds. The Skillset accredited Scheme is run in conjunction with Cyfle, an industry training provider, and targets specific skills gaps within the local industry.

We currently have placements in Art Department, Costume, Post Production, Camera, Sound, Radio Sport, Interactive and Learning and Grip. We advertise the Apprenticeship via conventional methods (BBC Jobs site, local media) as well as on

social media sites. We also organise open days for all to try and target as diverse a set of applicants as possible.

We have a long-term commitment to these apprenticeships and offer trainee/entry level roles that the apprentices are able to apply for (following BBC recruitment guidelines) once they have completed the 12 month apprenticeship. In 2014 we have appointed trainees on BBC contracts in art department, camera, costume and post production.

The apprentice scheme launched in 2012 and is currently in its third year, with 11 apprentices recently starting their 12 month placements. Over the previous 2 years we have taken on 18 apprentices. Of that 18, 16 completed the apprenticeship and attained their level 3 diploma in Creative and Digital Media. From the 18 placements 11 now continue to work in the industry, either at the BBC or in the local market as freelancers/for Independent companies. A further 2 returned to education to attain further qualifications

BBC Technology Apprenticeships are recruited centrally and will be put on a placement in Wales in addition to other BBC bases. At the end of the scheme they will receive a Beng (Hons) Broadcast Engineering and have the necessary skillset to be suitable for internal and industry roles.

Two **BBC Radio Apprenticeships** are currently provided each year with Radio Wales and Radio Cymru. The individuals will be suitable for internal and industry roles at the end of the scheme.

3.2 Entry-level and trainee opportunities

Our **Production Talent Pool** identifies approximately 18-25 relatively inexperienced individuals each year ready for selection into entry-level roles (runners or production management assistants). This is heavily publicised on social media and the BBC careers site.

Candidates go through a rigorous application, assessment and interview process. The successful candidates are given initial training in areas such as health and safety, post production paperwork and BBC systems. This training is invaluable as a stepping stone for an entry level role. The successful candidates are based in Wales.

At our **Roath Lock drama studios**, we also offer entry level opportunities to runners, edit assistants and production management assistants on all of our dramas. We have recently created 2 new rolling 6-month contracts for trainees in make-up, hair

and prosthetics on one of our continuing dramas.

In addition, BBC Wales also supports **pan-BBC entry level schemes**, offering work experience placements in a variety of roles. For example, BBC Wales's drama team offers Production Trainee Scheme placements in script and development departments and offers work to individuals who have gained a place in the BBC Talent Pool.

Our **Journalism Bursary scheme** offers work placements to students at Cardiff School of Journalism in both News and Sport. These placements are for 3 months and enable the individuals to gain invaluable experience on a training contract at their end of their post graduate diploma. Alongside this scheme, we provide three-month **Journalism Trainee** placements in our Wales newsroom. These roles are recruited as trainees in online radio and tv production. At the end of scheme the individuals are trained journalists and suitable for roles internally and within the industry.

The **'It's My Shout'** development programme provides practical opportunities in television and film production targeting individuals and groups that would not normally have access to such opportunities. BBC Wales is a partner and sponsor of the scheme (with S4C) - providing mentoring and training both in front of and behind the camera for the participants. Every summer, It's My Shout produces short 10- 30 minutes films in Welsh and English, and a 'making of' documentary - six of these films have been commissioned and will broadcast on BBC Wales in November/December 2014 with three films being broadcast on S4C.

3.3 Links with Higher Education and Further Education

BBC Wales's links with HE/FE provide an important way of connecting with entrants to the media business. There is a wide range of activity at all levels between BBC Wales and the FE/HE sector. Some are as simple as contacts agreed between individuals in response to HE/FE requests for guest industry speakers, progressing through approaches for the accreditation or validation of courses on behalf of the BBC, to involvement in strategic pan-BBC projects with multiple HE/FE institutions and contacts.

These links with HE/FE have the potential to bring fresh thinking to BBC Wales and help answer specific challenges in areas such as diversity and on-screen portrayal. They help the business expand its contact base and can also support the search for new talent which is already based in Wales, an important feature of sustaining a dynamic and agile workforce here.

The engagement with HE/FE is considered beneficial by the institutions and their students, judging from the volume of activity and feedback. They place a high value on the knowledge brought from the workplace and the BBC brand carries weight.

The links can be formal or informal, and include the following:

- Lectures and tutorials, usually specialist and based around a particular course objective (Radio Production, Creative Pitching, Journalism)
- Presentations and Q+A sessions on how to get a job or do a job (sometimes involving other broadcasters/production houses in a panel or speed dating format)
- Placement and support for students, as well as provision of expert time and facilities. Also through course validation work as part of the wider industry group

3.4 Attracting a more diverse workforce

One of the biggest challenges facing the creative sector in Wales has been the slow progress made in attracting people from more diverse backgrounds into the industry. Currently, too many people with disabilities and from BAME and less advantaged backgrounds find it harder to access the industry.

This is an issue across the UK for the creative sector and BBC Wales is determined to make real headway on this issue in the months and years ahead - working alongside a range of partners.

The BBC gets much right on diversity. But scrutiny, perceptions, expectations and our duty to show leadership mean we have to do more. Because of our unique funding we rightly see it as our duty to drive change and lead the industry. We want diversity to run right through our business, from top to bottom.

The BBC recently announced ambitious new plans to address the off-screen representation of BAME people at the BBC across the UK and to ensure that the BBC of the future should represent every family and community in the UK. The plans include:

- a new top level leadership development programme, led by the Executive Board;
- more training internships alongside our existing apprenticeships;
- creation of a new diversity advisory group, chaired by the DG, to offer independent challenge and advice; and
- stretching targets to make sure we deliver on our new commitments.

In addition, current activity in Wales includes:

Extend

Extend is a BBC-wide placement scheme which offers appropriately experienced and/or qualified disabled people a great opportunity to gain six months paid work within the BBC.

We have many challenging and imaginative placements across the country, in both programming and support areas. Over the last 17 years, Extend has recruited 604 disabled people. Although there is no guarantee of a full-time job at the end of the 6 month placement, last year over 75% of the 'Extendees' gained further work at the BBC. Over the past five years, 13 disabled people between 16 and 25 years have been offered work placements as part of the Extend programme in Wales.

Workforce Diversity Lead

BBC Wales is currently recruiting a new Diversity Lead to drive our recruitment from more diverse communities. This role will seek out individuals with the potential to make a real mark at the BBC, focusing on individuals from BAME groups, people with disabilities, and people from less prosperous backgrounds.

Project FIO and BBC Wales

The Arts Council of Wales-funded Project FIO offers children and young people the opportunity to learn new skills in television, theatre and the arts. BBC Wales took part in a three week summer school in August 2014.

- Approximately 15 young people, aged between 15 – 19 years old attended the group sessions over the summer. This included a significant number of young people from BAME and disadvantaged backgrounds. The sessions included a tour of Roath Lock drama village, talks from a variety of BBC Wales' teams and face to face chats with individuals at BBC Wales.
- Through its outreach work, the project gave the young people the opportunity to gain insight into organisations they may think are not for them. By working with Project FIO BBC Wales was able to interact with a group of young people who, we hope, will now consider applying for opportunities at BBC Wales in the future.
- The sessions also gave BBC Wales the opportunity to engage with the young people; giving them an insight into BBC Wales and giving BBC staff an opportunity to gain a better understanding of our audience. The sessions were also a chance for the young people to gain some practical experience of television production.

Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon